***Statws** Mae'r fersiwn hon o'r ddarpariaeth hon yn rhagolygol.*
***Newidiadau i ddeddfwriaeth:** Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Mesur Diogelwch Tân Domestig (Cymru) 2011, Paragraff 5. (See end of Document for details)*

PROSPECTIVE

## ATODLEN 1

## GORFODI

*Apelio yn erbyn hysbysiad paragraff 3*

5 (1) Caiff person sy'n cael hysbysiad paragraff 3 apelio i lys ynadon ar sail unrhyw un o'r canlynol os yw'n briodol o dan amgylchiadau'r achos penodol—

(a) nid oes modd cyfiawnhau'r hysbysiad neu unrhyw ofyniad y mae'n ei orfodi gan delerau paragraff 3,

(b) ceir rhyw afreoleidd-dra, nam neu wall yn yr hysbysiad, neu mewn perthynas ag ef,

(c) mae'r awdurdod yn afresymol wedi gwrthod cymeradwyo gwneud gwaith amgen, neu mae'r gwaith sy'n ofynnol gan yr hysbysiad fel arall yn afresymol o ran ei nodweddion neu ei faint, neu nid yw'r gwaith yn angenrheidiol;

(d) nid yw'r amser a ganiatawyd ar gyfer cyflawni'r gwaith yn rhesymol ddigon i'r pwrpas hwnnw.

(2) Os bydd apêl o dan yr adran hon wedi'i seilio ar ryw afreoleidd-dra, nam neu wall yn yr hysbysiad neu mewn perthynas ag ef, i'r graddau hynny, rhaid i'r llys wrthod yr apêl os yw wedi'i fodloni nad oedd yr afreoleidd-dra, nam neu wall yn sylweddol.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** Atod. 1 para. 5 ddim mewn grym ar Gymeradwyaeth Frenhinol, gweler **a. 9(3)**

**Statws**
Mae’r fersiwn hon o'r ddarpariaeth hon yn rhagolygol.

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Mesur Diogelwch Tân Domestig (Cymru) 2011, Paragraff 5.